YSGOL PENRHYN-COCH

Erbyn hyn mae'r plant a'r staff wedi cyfarwyddo â threfniadaeth gyffredinol yr ysgol ar ddechrau blwyddyn addysgol arall. Fel arfer daeth prysurdeb y tymor yn amlwg ymhen dim amser. Bu'r bechgyn wrthi'n brysur gyda'r pêl-droed gan gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan y RAFA a chystadleuaeth Tarian Waunfawr. Ni ddaethant i'r brig ond gwnaethant waith canmoladwy iawn. Daliwch ati! Mae'r merched hefyd yn edrych ymlaen yn awchus at gychwyn tymor arall ym myd yr hoci a'r bêl-rwyd gobeithio.

Bu plant dosbarth 4 yn dilyn cwrs undydd ar grochenwaith yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth a chafwyd diwrnod diddorol dros ben. Edrychant ymlaen at gael cyfle cyffelyb yn y dyfodol agos. Hefyd buont yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ar yweliad un prynhawn gan fwynhau eu hunain yn fawr.

Braf yw cael croesawu criw o fyfyrwyr o'r Brifysgol atom yn wythnosol i dreulio cyfnod yn nosbarth 4. Drwy gydweithio hapus rhyngddynt hwy, y prifathro a'r plant, ehangir gorwelion pawb ym myd gwyddoniaeth.